Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Llangefni, 6.30yh, 12 Hydref 2026.
Cynhaliwyd yn Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni LL77 7EN

Yn Bresennol: Cynghorydd Margaret Thomas (Maer), Geraint Bebb (Dirprwy Faer), Henry Jones, Egryn Lewis, Terry Jones, Huw Owen, Alwyn Parry.

26/151: **Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Arwel Môn Hughes, Non Parry.

26/152: **Datganiad o Ddiddordeb**: Dim.

26/153: **Heddlu Gogledd Cymru**: PC Lisa Thomas yn ymddiheuro.

26/154: Cyflwyniad gan berchenogion siopau yn y Dref. Gwnaeth cynrychiolydd o berchnogion siopau yn y dref araeth ofyn am gymorth ariannol ar gyfer digwyddiad cynnau'r goleuadau Nadolig (20 Tachwedd). Gweler 26/160 2.

26/155: **Cofnodion Cyfarfod 7 Medi 2026**.
Cytunwyd bod y cofnodion hyn yn gofnod cywir.

Cynigiwyd gan: Cyng. Margaret Thomas Eiliwyd gan: Cyng. Geraint Bebb

26/156. **Materion yn codi o'r Cofnodion**: Dim.

26/157. **Cynllunio**: Byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod yn syth ar ôl Cyfarfod Llawn y Cyngor.

26/158: **Adroddiad y Maer**: Roedd prosiect Parc Lôn Las yn symud yn ei flaen yn dda, gyda'r gwaith peintio murlun i fod i ddechrau yn hwyrach yn yr wythnos. Dosbarthwyd adroddiad llawn gan Reolwr y Prosiect drwy e-bost.

26/159 **Ystafelloedd Newid Lôn Newydd**: Gohiriwyd.

26/160 **Adroddiad y Clerc**:

i. **Swyddi gwag achlysurol:** Adroddodd y Clerc mai dim ond dau gais a dderbyniwyd ar gyfer y 5 swydd wag. Gofynnwyd iddo hysbysebu eto gyda dyddiad cau o 5 Tachwedd 2026.

ii. **Digwyddiadau'r Nadolig**: Derbyniwyd cais am tua £4,000 (gweler atodiad 1) gan y grŵp berchen siopau i ariannu digwyddiad cynnau goleuadau'r Nadolig. Cytunwyd: Cyfrannu £1,700 tuag at logi llwyfan ac offer sain, a £235 ar gyfer rheiliau/rhwystrau (y ddau ffigwr heb TAW).

Cynigiwyd gan:Cyng. Henry Jones Eiliwyd gan: Cyng. Alwyn Parry Pleidlais: Unfrydol

iii. **Sul y Cofio**: Roedd y trefniadau yn mynd ymlaen yn dda, gyda system sain yn cael ei logi a'r ardal o amgylch y gofadail wedi'i glanhau.

iv. **Mynwent Lôn Newydd**. Roedd CDS bellach wedi dechrau ar gam nesaf y broses a byddai eu Hecolegydd yn ymweld â'r safle ar y 15fed o Hydref.

v. a) **Swyddog Ariannol Newydd**. Ar ôl arweiniad y Cyngor mewn cyfarfod blaenorol, roedd y Maer a'r Clerc wedi cyfweld â Celt Moss ar gyfer y swydd o

gymryd lle Arnold Milburn ar achlysur ei ymddeoliad sydd ar fin digwydd. Mae gan Mr Moss radd yn y Gyfraith a Chyfrifeg ac mae wedi gweithio fel swyddog cyfrifon mewn cwmni cyfreithiol yn Llangefni.

Cynigiwyd: Bod Mr. Moss yn cael ei benodi ar yr un telerau ac amodau â Mr Milburn, h.y. 15 awr y mis ar bwynt graddfa 28, sef £20.96 yr awr. (Gweler atodiad 2.)

Cynigiwyd: Bod Mr. Moss yn cael ei gyflogi gyda chyfnod prawf o 3 mis.

Cynigiwr: Cyng.Terry Jones Eilydd: Cyng. Geraint Bebb

b) **PAYE**. Roedd y Clerc wedi awgrymu'n flaenorol y dylai'r Cyngor gyflogi cyfrifydd sy'n arbenigo mewn PAYE i wneud y gwaith talu cyflogau. Roedd wedi derbyn nifer o ddyfynbrisiau.

Cynigiwyd: Bod Harold Smith & Co yn cael eu cyflogi i wneud gwaith talu cyflogau'r Cyngor am £300 y flwyddyn + TAW.

Cynigiwr: Cyng. Terry Jones Eilydd: Cyng. Huw Owen

26/161 **Cyllid :**
1. Mantolen. Cymeradwywyd datganiad ariannol y mis hwn.

Cynigiwr: Cyng. Margaret Thomas Eilydd: Cyng. Terry Jones

26/162 **Swydd y Clerc :**

1. Roedd yr hysbysebion yn 'Swyddle' ac amrywiol bapurau bro wedi denu 4 cais. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Staffio yn cyfarfod i lunio rhestr fer o'r ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad ar ôl y dyddiad cau, sef y 31ain o Hydref.

2. Gan y byddai angen i'r Clerc dros dro weithio am gyfnod hirach, cynigiwyd ei gyflogi ar sail PAYE, Pwynt 36, £25.26 yr awr, 21 awr yr wythnos (gweler atodiad 3).

Cynigiwr: Terry Jones Eilydd: Geraint Bebb

26/163. **Adroddiad Cynghorydd Ynys Môn** : Cyflwynodd y Cynghorydd Non Dafydd adroddiad ar y materion diweddar yr oedd hi wedi bod yn gweithio arnynt yn y dref.

26/164 **Gohebiaeth** :

Roedd Ffermwyr Ifanc Môn wedi ysgrifennu yn gofyn am gyfraniad tuag at eu Heisteddfod Flynyddol.

Cynigiwyd bod Cyngor Tref Llangefni yn rhoi rhodd o £300 i'r digwyddiad.

Cynigiwyd gan: Cyng. Henry Jones Eiliwyd gan: Cyng. Alwyn Parry

26/165 **Gohebiaeth**: Nodwyd.

26/166 **Busnes Brys**: Dim.

167: **Dyddiad y cyfarfod nesaf**: 9 Tachwedd 2026.